# Rhestr Wirio Polisïau a Gweithdrefnau ar gyfer Sefydliadau sy'n cynnwys Gwirfoddolwyr

Mae nifer o wahanol fathau o sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr ac i rai bydd polisïau penodol yn ofynnol yn ôl y gyfraith. Bydd natur eich gwaith hefyd yn pennu'r polisïau sy'n ofynnol, ond dylai'r canlynol fod ar waith o leiaf.

| POLISI | AR WAITH IE/NA | NODIADAU/DOLENNI |
|---|---|---|
| Polisi Iechyd a Diogelwch | | Dylai grwpiau a sefydliadau sy'n ymgysylltu â gwirfoddolwyr drin Iechyd a Diogelwch fel blaenoriaeth a dylech geisio cyngor priodol ar eich rhwymedigaethau cyfreithiol. Mae'n arfer dda trin gwirfoddolwyr yr un fath â staff cyflogedig yn nhermau amddiffyn eu Hiechyd a Diogelwch.<br>**Cyngor Iechyd a Diogelwch NCVO** |
| Polisïau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | | Bydd Polisi Cyfle Cyfartal yn sicrhau bod pawb yn eich sefydliad yn cael eu trin yn deg a heb wahaniaethu. Mae'n ofyniad cyfreithiol i rai sefydliadau.<br>**Polisi Cyfle Cyfartal Enghreifftiol WCVA** |
| Diogelu – Polisi Diogelu Plant/ Oedolion mewn Perygl (os yw'n berthnasol) | | Bydd Polisi Diogelu cadarn yn sicrhau bod eich sefydliad yn bodloni ei ofynion cyfreithiol i ddiogelu grwpiau bregus a phawb yn eich sefydliad. Cysylltwch â'ch Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol lleol am gyrsiau hyfforddiant diogelu.<br>**Offeryn Archwilio Diogelu WCVA** |

Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon ym mis Mawrth 2021, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Fel canllaw yn unig mae'r wybodaeth yn y daflen hon wedi'i bwriadu. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

| POLISI | AR WAITH IE/NA | NODIADAU/DOLENNI |
| --- | --- | --- |
| Polisi Gwirfoddoli | | Bydd Polisi Gwirfoddoli da yn sicrhau arfer dda ym mhob agwedd ar y rôl wirfoddoli.<br>**Cyngor TSSW ar ddatblygu polisi gwirfoddoli** |
| Polisïau Diogelu Data a Chyfrinachedd | | Mae’n ofyniad cyfreithiol i sefydliadau gydymffurfio â’r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a gofynion cyfrinachedd. Os ydych yn ansicr, ceisiwch gyngor arbenigol i sicrhau bod eich polisi yn cydymffurfio â’r gyfraith.<br>**Adnoddau diogelu data WCVA** |



Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon ym mis Mawrth 2021, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a’r dolenni ddyddio’n hawdd. Fel canllaw yn unig mae’r wybodaeth yn y daflen hon wedi’i bwriadu. Nid yw’n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu’n ymwrthod rhag gweithredu arni.

Mae hefyd yn arfer dda cael y polisïau canlynol ar waith.

| POLISI | AR WAITH IE/NA |
|---|---|
| Polisi Gweithio’n Annibynnol Hanfodol<br>os yw gweithio’n annibynnol yn ofynnol | |
| Polisi/Gweithdrefn Ad-dalu Treuliau | |
| Polisi Gwrthdaro Buddiannau | |
| Polisi Cwynion | |
| Cytundeb Gwirfoddoli | |



## Useful links:

- **NCVO – Gwirfoddoli**
- **Rydw i’n gweithio gyda gwirfoddolwyr – WCVA**
- **Archifau Gwirfoddol – Cefnogi Trydydd Sector Cymru**

Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon ym mis Mawrth 2021, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a’r dolenni ddyddio’n hawdd. Fel canllaw yn unig mae’r wybodaeth yn y daflen hon wedi’i bwriadu. Nid yw’n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu’n ymwrthod rhag gweithredu arni.

Prosiect amlasiantaethol yw

**Cymorth Gwirfoddoli Gorllewin Morgannwg**

sy'n creu adnoddau a rennir i ddatblygu gwybodaeth gwirfoddolwyra sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr a'r gwaith o'u rheoli a chydlynu ar draws ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Ariennir gan Gronfa Adfer Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru.

**Partneriaid y prosiect yw:**

Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Cyngor Abertawe, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe a Phartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg.

**Am ragor o wybodaeth, ewch i:**

**www.westglamorgan.org.uk/wgvs**